



POLISI RHEOLI'R TRYSORLYS

Corff Cymeradwyo:	Y Cyngor
Dyddiad Cymeradwyo:	25/11/2019
Perchennog y Polisi:	Y Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol
Statws y Polisi:	Diwygiedig
Dyddiad yr adolygiad diwethaf:	Tachwedd 2019
Dyddiad yr adolygiad nesaf:	Tachwedd 2021

1.0 **Cyflwyniad**

Yn unol â Rheoliadau Ariannol Prifysgol Aberystwyth, y Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol sy'n gyfrifol am reoli gweinyddiaeth ariannol dydd i ddydd y Brifysgol, yn cynnwys buddsoddi arian parod yn unol â Pholisi Rheoli'r Trysorlys a mynd ati i agor neu gau cyfrif banc ar gyfer delio â chyllid y Brifysgol.

Cyhoeddir y Polisi hwn gan y Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol, sy'n gyfrifol am ddatblygu a chynnal a chadw Polisi a Gweithdrefnau'r Trysorlys (fel yr adroddir i'r Pwyllgor Adnoddau a Pherfformiad)

Bydd rheoli'r trysorlys yn effeithiol yn cynorthwyo'r Brifysgol i gyflawni ei hamcanion strategol a gweithrediadol.

Rhaid i'r Brifysgol gydymffurfio â thelerau'r Cod Rheoli Ariannol (W17/16HE) rhwng CCAUC a Sefydliadau, yn cynnwys telerau penodol yn ymwneud ag ymrwymadau ariannol.

https://www.HEFCW.ac.uk/documents/publications/circulars/circulars_2017/W17%2016HE%20Financial%20Management%20Code.pdf

1.1 **Pwrpas**

Mae'r datganiad hwn yn egluro polisiau, arferion ac amcanion gweithgareddau rheoli'r trysorlys y Brifysgol fel y'i cymeradwyir o bryd i'w gilydd gan y Cyngor ac mae'n cwmpasu'r Brifysgol a'i holl gwmnïau cysylltiedig.

Pwrpas y polisi hwn yw egluro sut y bydd y Brifysgol yn gweithredu ei gweithgareddau rheoli'r trysorlys er mwyn rheoli'r risgiau cysylltiedig a sicrhau'r perfformiad gorau yn gyson â'r risgiau hynny.

Mae'r Brifysgol yn ystyried mai nodi, monitro a rheoli risgiau'n llwyddiannus yw'r prif feini prawf ar gyfer mesur effeithiolrwydd ei gweithgareddau rheoli'r trysorlys. Mae'r Pwyllgor Buddsoddi yn gyfrifol am fuddsoddiadau'r Brifysgol yn cynnwys arian parod ac mae'n atebol i'r Pwyllgor Adnoddau a Pherfformiad.

1.2 **Cod CIPFA**

Mae'r Brifysgol yn mabwysiadu argymhellion allweddol Cod Ymarfer: Rheoli'r Trysorlys yn y Gwasanaethau Cyhoeddus (2011) y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA).

Mewn cydymffurfiaeth â Chod Ymarfer CIPFA, mae'r Brifysgol yn diffinio:

- Gweithgareddau rheoli'r trysorlys fel:

Rheoli buddsoddiadau a llifoedd arian y Brifysgol, ei thrafodion bancio, marchnadoedd arian a marchnad cyfalaf; rheolaeth effeithiol ar y risgiau sy'n gysylltiedig â'r gweithgareddau hynny; a cheisio'r perfformiad gorau yn gyson â'r risgiau hynny.

- Risg credyd a pharti i gontract fel:

Risg o fethiant gan drydydd parti i fodloni ei ymrwymadau contractaidd i'r sefydliad, yn enwedig o ganlyniad i ostyngiad yn nheilyngdod credyd y trydydd parti, a'r effaith niweidiol ddilynol ar adnoddau cyfalaf a refeniw'r sefydliad.

- Risg ail-gyllido fel:

Risg na ellir ail-gyllido benthyciadau sy'n aeddfedu ar delerau sy'n adlewyrchu'r darpariaethau a wnaed gan y sefydliad i'r rheini sy'n ail-gyllido cyfalaf a refeniw, a/neu fod y telerau'n anghyson ag amodau cyffredinol y farchnad ar y pryd.

1.3 Cwmpas

Mae'r polisi'n gymwys i unrhyw drafodion y mae'r diffiniadau uchod yn berthnasol iddynt, i'r Brifysgol a'i his-gwmnïau ac unrhyw ymgynghorwyr allanol wrth ymgymryd â gweithgareddau rheoli'r trysorlys.

2 Datganiad Polisi

2.1 Rheoli Risg

Bydd y Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol yn cynllunio, gweithredu a monitro'r holl drefniadau ar gyfer nodi, trefnu a rheoli risgiau rheoli'r trysorlys. Eglurir y trefniadau isod:

2.1.1 Rheoli Risg Hylifedd

Caiff hyn ei ddiffinio fel risg na fydd arian parod ar gael pan fydd ei angen, bod rheolaeth aneffeithiol o hylifedd yn creu costau ychwanegol na chyllidebwyd ar eu cyfer, ac y bydd amcanion busnes y Brifysgol drwy hyn wedi'u cyfaddawdu.

Bydd y Brifysgol yn sicrhau bod ganddi adnoddau arian parod, trefniadau benthycyca, cyfleusterau gorddrafft neu drefniadau wrth gefn digonol ond heb fod yn ormodol i'w galluogi ar bob achlysur i sicrhau bod y lefel angenrheidiol o gyllid ar gael iddi ar gyfer cyflawni ei hamcanion busnes.

Bydd cyllid digonol ar gael iddi ar bob achlysur sy'n cyfateb i o leiaf 60 diwrnod o arian parod, oni chytunir yn wahanol gan y Cyngor, am reswm penodol.

2.1.2 Rheoli Risg Cyfradd Llog / Chwyddiant

Diffinnir risg cyfradd llog fel risg bod anwadaliadau yn y lefelau o gyfradd llog yn creu baich annisgwyl neu na chyllidebwyd ar ei gyfer ar gyllid y Brifysgol, y mae'r Brifysgol wedi methu â'i diogelu ei hun yn ei erbyn yn ddigonol.

Bydd y Brifysgol yn rheoli ei hamlygiad i anwadaliadau mewn cyfraddau llog gyda golwg ar gynnwys ei chostau llog, neu sicrhau ei refeniw llog gan gynnal diogelwch y cronfeydd a fuddsoddir.

Bydd yn cyflawni hyn drwy ddefnydd darbodus o'i hofferynnau, dulliau a thechnegau cyllido a buddsoddi cymeradwy, yn bennaf i greu sefydlogrwydd a sicrwydd o ran costau a refeniw ond ar yr un pryd gynnal mesur digonol o hyblygrwydd i fanteisio ar newidiadau annisgwyl a allai fod yn fanteisiol i lefel neu strwythur cyfraddau llog.

Bydd y Pwyllgor Adnoddau a Pherfformiad yn ystyried argymhellion gan Bwyllgor Gweithredol y Brifysgol i reoli amlygiad i gyfraddau llog cyn mynd i unrhyw drefniadau benthyca newydd.

2.1.3 Rheoli Risg Cyfraddau Cyfnewid

Diffinnir risg cyfraddau cyfnewid fel risg o anwadaliadau mewn cyfraddau cyfnewid tramor sy'n creu baich annisgwyl neu na chyllidebwyd ar ei gyfer ar gyllid y Brifysgol, y mae'r Brifysgol wedi methu â'i diogelu ei hun yn ei erbyn yn ddigonol.

Ni fydd y Brifysgol yn ei hamlygu ei hun i risg cyfraddau cyfnewid diangen na dyfaliadol.

Bydd y Brifysgol yn cadw cronfeydd mewn arian cyfred i'r graddau y mae taliadau'n ddyledus yn yr arian cyfred hwnnw yn unig. Bydd derbyniadau arian cyfred uwchlaw hyn yn cael eu trosglwyddo i sterling ar y gyfradd orau y gellir ei chyflawni, ond gan gadw mesur digonol o hyblygrwydd bob amser i fanteisio ar newidiadau annisgwyl yn lefel y cyfraddau cyfnewid a allai fod yn fanteisiol.

2.1.4 Rheoli Risg Credyd a Pharti i Gontract

Diffinnir risg credyd a pharti i gontract fel risg o fethiant gan drydydd parti i fodloni ei ymrwymadau contractaidd i'r Brifysgol dan fuddsoddiad, benthyca, cyfalaf, cyllid prosiect neu bartneriaeth, yn enwedig o ganlyniad i ostyngiad yn nheilyngdod credyd y trydydd parti, a'r effaith niweidiol ddilynol ar gyfalaf neu adnoddau refeniw'r Brifysgol.

Mae'r Brifysgol yn ystyried mai prif amcan ei gweithgareddau rheoli'r trysorlys yw diogelwch y prif symiau y mae'n eu buddsoddi. Yn unol â hynny, bydd yn sicrhau bod ei rhestr o bartïon i gontract yn cael ei llunio gyda diogelwch yn flaenoriaeth, ond gyda thaeniad rhesymol i wneud y gorau o amgylchiadau'r farchnad.

Bydd yr Adran Cyllid yn cynnal rhestr o bartïon i gontract cymeradwy sy'n dangos eu statws credyd cyfredol a dau statws credyd a adroddwyd yn flaenorol i'w hadolygu gan y Pwyllgor Adrodd a Pherfformiad ym mhob un o'i gyfarfodydd arferol.

Caiff y rhestr o bartïon i gontract cymeradwy ei seilio ar isafswm statws credyd o leiaf ddau o'r tair prif asiantaeth sy'n gosod statws credyd (Standard and Poors, Moodys a Fitch), gan ddefnyddio doethineb i adneuo arian dros nifer o sefydliadau ariannol, er mwyn taenu risg parti i gontract.

	Tymor byr	Tymor hir
Moody's	P-1	Aa1 / Aa2 / Aa3
S&P	A-1	A+ / A / A-
Fitch	F1	AA+ / AA / AA-

Mae gan y Pwyllgor Adnoddau a Pherfformiad awdurdod i gymeradwyo'n benodol cynnwys partion i gontract sydd â statws is na'r isafswm neu heb statws, os ydynt yn ystyried ei bod yn briodol gwneud hynny.

Lle bydd y Brifysgol wedi gosod cronfeydd ar adnau tymor penodol a bod amgylchiadau'n newid sy'n golygu israddio gan asiantaeth neu fod y Brifysgol yn derbyn cyngor ynghylch teilyngdod credyd y parti i gontract, ni chaiff unrhyw gronfeydd pellach eu hadneuo gyda'r parti i gontract hwnnw. Bydd adneuo'n sydd eisoes yn bodoli yn cael aeddfedu oni bai bod y newid yn arwydd o ddirywiad sylfaenol yn sefyllfa ariannol y sefydliad i'r graddau yr ystyrir bod

diogelwch y swm a adneuwyd mewn perygl. Mewn amgylchiadau o'r fath, bydd y Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol yn ceisio dychwelyd yr adnau'n gynnar ac yn ceisio lleihau costau'r dychwelyd cynnar.

2.1.5 Rheoli Risg Ail-gyllido

Bydd y Brifysgol yn sicrhau bod ei benthyciadau, cyllido preifat a threfniadau partneriaeth yn cael eu trafod, eu strwythuro a'u cofnodi a bod proffil aeddfedu'r cyllid a godir yn y modd hwn yn cael ei reoli, gyda golwg ar sicrhau telerau cynnig ar gyfer adnewyddu neu ail-gyllido, os bydd angen, sy'n gystadleuol a mor ffafriol i'r Brifysgol ag y gellir ei gyflawni'n rhesymol yng ngoleuni amgylchiadau'r farchnad yn gyffredinol ar y pryd. Bydd y Brifysgol yn rheoli ei pherthynas gyda'i chymheiriaid i sicrhau'r amcan hwn a bydd yn osgoi gorddibynnu ar unrhyw un ffynhonnell o gyllid.

2.1.6 Rheoli Risg Cyfreithiol a Rheoleiddio

Diffinnir risg cyfreithiol a rheoleiddio fel risg y bydd y Brifysgol ei hun, neu drydydd parti y mae'n delio ag ef, yn methu â gweithredu'n unol â'i bwerau cyfreithiol neu ofynion rheoleiddio, a bod y Brifysgol yn dioddef colledion o ganlyniad i hynny.

Bydd y Brifysgol yn sicrhau bod ei holl weithgareddau rheoli'r trysorlys yn cydymffurfio â'i phwerau statudol a'i gofynion rheoleiddio. Lle bo angen, caiff cyngor annibynnol ei ddilyn cyn mynd i gytundebau er mwyn sicrhau bod y risg hwn yn cael ei leihau.

2.1.7 Twyll, Gwall a Llygredd a Rheoli Wrth Gefn

Diffinnir hyn fel risg bod y Brifysgol yn methu ag adnabod amgylchiadau pan y gallai fod yn agored i risg o golled drwy dwyll, gwall, llygredd neu bosibilrwydd arall yn ei deliadau rheoli'r trysorlys ac yn methu â defnyddio systemau a gweithdrefnau addas a chynnal trefniadau rheoli wrth gefn i'r perwyl hwn.

Bydd y Brifysgol yn sicrhau ei bod wedi adnabod yr amgylchiadau a allai ei hamlygu i risg o golled drwy dwyll, gwall, llygredd neu bosibilrwydd arall yn ei gweithgareddau rheoli'r trysorlys. O ganlyniad, bydd y Brifysgol yn defnyddio systemau a gweithdrefnau addas, ac yn cynnal trefniadau rheoli wrth gefn effeithiol, i'r perwyl hwnnw.

2.1.8 Rheoli Risg y Farchnad

Diffinnir risg y farchnad fel risg, drwy anwadaliadau niweidiol yn y farchnad o ran gwerth y prif symiau y mae'n eu buddsoddi, bod ei pholisïau ac amcanion rheoli'r trysorlys datganedig yn cael eu cyfaddawdu a'i bod wedi methu â'i diogelu ei hun.

Bydd y Brifysgol yn ceisio sicrhau na chaiff ei pholisïau ac amcanion rheoli'r trysorlys datganedig eu cyfaddawdu gan anwadaliadau niweidiol yn y farchnad o ran gwerth y prif symiau mae'n eu buddsoddi, ac yn unol â hynny bydd yn ceisio ei diogelu rhag effeithiau niweidiol anwadaliadau o'r fath.

Lle bydd symiau o arian yn cael eu dal yn y tymor hir, bydd y Brifysgol yn buddsoddi ar gyfer twf cyfalaf ac yn ceisio rheoli risg anwadaliadau niweidiol yn y farchnad o ran gwerth y prif symiau y mae'n eu buddsoddi drwy amrywio. Caiff hyn yn gyffredinol ei gyflawni drwy fuddsoddi mewn portffolio cytbwys a reolir gan reolwyr buddsoddi allanol proffesiynol.

Caiff buddsoddiadau tymor hir, lle mae gwerth y prifswm yn agored i anwadaliadau'r farchnad, yn gyffredinol eu cyfyngu i gronfeydd gwaddol parhaol ac unrhyw gronfeydd gwaddol treuliadwy sylweddol lle disgwylir y caiff y prifswm ei gadw dros y tymor hir. Mae buddsoddi arian nad yw'n waddol dros y tymor hir yn gorfod cael cymeradwyaeth y Pwyllgor Adnoddau a Pherfformiad.

2.2 Gwerth am Arian a Rheoli Perfformiad

Mae'r Brifysgol yn ymrwymo i sicrhau gwerth gorau yn ei gweithgareddau rheoli'r trysorlys ac i fesur perfformiad i gefnogi'r nod hwnnw. O ganlyniad, bydd swyddogaeth rheoli'r trysorlys yn rheolaidd yn archwilio dulliau amgen i gyflawni'r gwasanaeth i sicrhau gwerth gorau a bydd yn mesur y perfformiad yn defnyddio meincnodau priodol. Caiff adroddiad blynyddol ar weithgaredd y trysorlys ei gyflwyno i'r Pwyllgor Adnoddau a Pherfformiad yn cwmpasu'r flwyddyn ariannol flaenorol heb fod yn hwyrach na diwedd y flwyddyn galendr.

Caiff buddsoddi tymor hir ei fesur yn erbyn meincnod a gytunir gyda'r cynghorwyr buddsoddi gan y Pwyllgor Buddsoddi fel y nodir yn y polisi buddsoddi. Mae buddsoddiadau tymor hir yn agored i graffu rheolaidd gan y Pwyllgor Buddsoddi.

2.3 Gwneud penderfyniadau a dadansoddi

Bydd y Brifysgol yn cynnal cofnodion llawn o'i phenderfyniadau rheoli'r trysorlys ac yn sicrhau eu bod yn cyd-fynd â'r polisi hwn.

Mewn perthynas â benthycia a phenderfyniadau cyllido eraill, bydd yn Brifysgol yn:

- rhoi ystyriaeth ddyledus i'w phwerau cyfansoddiadol ac unrhyw ofynion statudol a rheoleiddiol perthnasol
- gwerthuso'r ffactorau economaidd a marchnad a allai ddylanwadu ar ddull ac amseru unrhyw benderfyniad
- ystyried y seiliau cyfradd llog amgen sydd ar gael a'r dull mwyaf priodol o leihau amlygiad i gyfradd llog, y cyfnodau mwyaf priodol i gyllido a phroffiliau ad-dalu i'w defnyddio
- ystyried y rhwymedigaethau refeniw parhaus a grëir, a goblygiad hyn i gynlluniau a chyllidebau'r Brifysgol yn y dyfodol

2.4 Offerynnau, dulliau a thechnegau cymeradwy

Bydd y Brifysgol yn ymgymryd â'i gweithgareddau rheoli'r trysorlys drwy ddefnyddio'r offerynnau, dulliau a thechnegau hynny a argymhellir yng nghod ymarfer CIPFA yn unig. *Gweler Atodlen A*

2.5 Dulliau Cymeradwy o Godi Cyllid Cyfalaf

Mae gan y Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol awdurdod i ymgymryd â gweithgareddau benthycia'r Brifysgol, yn amodol ar gymeradwyaeth y Cyngor. *Gweler Atodlen B.*

2.6 Trefniadau Archwilio

Bydd y Brifysgol yn sicrhau bod gan ei harchwilwyr allanol a mewnol fynediad at yr holl wybodaeth a phapurau sy'n cefnogi gweithgareddau swyddogaeth rheoli'r trysorlys fel bo angen ar gyfer cyflawni eu rolau'n briodol.

2.7 Rheoli Arian Parod a Llif Arian

Mae'r Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol yn gyfrifol am holl arian y Brifysgol. Caiff yr holl gronfeydd eu cyfanredu at ddibenion llif arian a rheoli buddsoddiadau. Caiff rhagfynegiadau llif arian eu paratoi'n rheolaidd ac yn amserol. Bydd yr adroddiad ariannol chwarterol yn cynnwys datganiad a rhagfynegiad llif arian.

2.8 Gwyngalchu Arian

Mae'r Brifysgol yn effro i'r posibilrwydd y gallai wynebu ymdrech i'w chynnwys mewn trafodion sy'n cynnwys gwyngalchu arian. Mae gan y Brifysgol bolisi gwyngalchu arian a gaiff ei gadw'n gyfoes. Ceir rhagor o wybodaeth drwy'r Gweithdrefnau Ariannol (adran 7) <https://www.aber.ac.uk/en/media/departmental/finance/pdf/pdf/Financial-Procedures---May-2017.pdf>

2.9 Defnyddio Darparwyr Gwasanaeth Allanol

Bydd y Brifysgol yn gwerthuso costau a buddion wrth gyflogi arbenigwyr allanol. Bydd hefyd yn sicrhau y caiff telerau darparwyr allanol o'r fath eu hasesu a'u cytuno a'u cofnodi'n briodol a'u bod yn destun adolygiad rheolaidd. Lle bydd gwasanaethau'n agored i drefniadau tendro neu ail-dendro ffurfiol, caiff gofynion deddfwriaethol eu dilyn bob amser. Ar bob achlysur bydd sicrhau'r 'Gwerth am Arian' gorau'n un o brif amcanion y Brifysgol.

3 Llywodraethu Corfforaethol

Mae'r Brifysgol yn ymrwmo i sicrhau llywodraethu corfforaethol priodol drwy ei holl fusnesau a gwasanaethau, ac i sefydlu egwyddorion ac arferion i gyflawni hyn. Yn unol â hyn caiff swyddogaeth rheoli'r trysorlys a'i weithgareddau eu cynnal gydag unplygrwydd a thryloywder, gonestrwydd ac atebolrwydd.

3.1 Cyfrifoldeb

Y Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol sydd â chyfrifoldeb cyffredinol am y polisi hwn. Y Cyfarwyddwr Cyllid Cynorthwyol (Rheolaeth) sy'n gyfrifol am sicrhau y caiff ei roi ar waith yn effeithiol, bod cynnydd yn cael ei fonitro a bod y polisi'n cael ei adolygu'n rheolaidd.

3.2 Gorfodi'r Polisi

Rhaid hysbysu'r Pwyllgor Adnoddau a Pherfformiad am unrhyw achosion o dorri'r polisi gan gynnwys os bydd asesiad o fanc yn cwmpo'r tu allan i'r ystod a gytunwyd.

3.3 Dogfennau Cysylltiedig

Mae'r dogfennau canlynol i'w gweld ar wefan y Brifysgol:

- Rheoliadau Ariannol (adran Cyllid)
- Polisi Gwrth Dwyll a Chamymddygiad
- Polisi Gwrth-lwgrwobrwyo
- Polisi Buddsoddi

Atodlen A – Offerynnau, Dulliau a Thechnegau Cymeradwy ar gyfer Buddsoddi ac Adneuo Cronfeydd Gwarged

a) Yr egwyddor or-redol sy'n llywio buddsoddi cronfeydd gwarged yw cyflawni enillion boddhaol o fewn cyfyngiad gweithredu darbodus.

b) Gellir buddsoddi gwarged gweddillion arian parod fel a ganlyn:

- i) Adneuo gyda banciau cymeradwy
- ii) Adneuo gyda Chymdeithasau Adeiladu cymeradwy
- iii) Tystysgrifau adneuo gan fanciau cymeradwy
- iv) Adneuo gyda Chronfeydd Marchnad Arian cymeradwy yn cynnwys Cronfeydd Cash Plus Sterling
- v) Cronfeydd wedi'u Harwahanu
- vi) Bondiau Aswiriant Gorchudd a Chorfforaethol
- vii) Biliau Llywodraeth y DU, Asiantaeth y Llywodraeth a'r Trysorlys

Atodlen B – Dulliau Cymeradwy o Godi Cyllid Cyfalaf

Mae gan y Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol awdurdod i ymgymryd â gweithgareddau benthycyfa'r Brifysgol, yn amodol ar gymeradwyaeth y Cyngor.

Bydd y Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol yn paratoi adroddiad ar bob benthyciad cyfalaf arfaethedig, fydd yn ffurfio sail ar gyfer argymhelliad i'r Cyngor. Bydd yr adroddiad yn cynnwys y canlynol:

- (i) Gofynion Benthycyfa
- (ii) Benthycwr Arfaethedig
- (iii) Strwythur Cyfradd Llog - sefydlog, amrywiol, amrywiol gydag opsiynau i'w gosod, indecs gyswllt, llog gohriedig
- (iv) Cyfradd Llog – sail a ffin y benthycwr
- (v) Ffioedd Trefnu
- (vi) Trefniadau Diogelwch
- (vii) Diben (gyda llif arian)
- (viii) Cymharu gyda Dewisiadau Amgen
- (ix) Trefniadau ar gyfer Tynnu i Lawr
- (x) Cyfreithlondeb
- (xi) Trefniadau ar gyfer cydymffurfio â'r Memorandwm Sicrwydd ac Atebolrwydd gyda Chyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru
- (xii) Unrhyw faterion eraill a allai gynorthwyo'r Cyngor i ystyried y cynnig

Wrth godi cyfalaf, mae gan y Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol, gyda chymeradwyaeth y Pwyllgor Adnoddau a Pherfformiad, awdurdod i gysylltu gydag unrhyw fanc neu sefydliad ariannol yn y DU dan bolisiau caffael y Brifysgol. Caiff tendro cystadleuol ei ddefnyddio bob amser i sicrhau gwerth am arian.